



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Proses gwneud penderfyniadau - Y Gronfa Gofal Integredig (CGI)

Cefndir

Mae trefniadau monitro a gwerthuso effeithiol yn bwysig i roi sicrwydd i Weinidogion Cymru bod dyraniadau'r GGI yn cael eu hwyluso'n llawn wrth ddarparu gwasanaethau integredig ac ataliol effeithiol.

Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau eu bod â threfniadau monitro cadarn yn eu lle i sicrhau bod cynlluniau a ariennir drwy'r GGI yn darparu canlyniadau bwriedig ar amser ac o fewn y gyllideb.

Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi adroddiadau bob chwarter yn amlinellu beth sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn, gan ddefnyddio cyllid cyfalaf a referniw CGI. Rhaid i bob adroddiad fod yn gronnus a chrynhoi'r sefyllfa gyffredinol ar yr adeg benodol o'r flwyddyn ariannol, mewn perthynas â phobl hŷn a bregus, pobl ag anableddau dysgu a phlant ag anghenion cymhleth, a WCCIS. Dylai adroddiadau monitro gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghanllawiau CGI 2019.

Bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu i fyrddau iechyd o fewn partneriaethau rhanbarthol, ond rhaid gwneud penderfyniadau gwario ar y cyd, gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ehangach. Rhaid i'r bwrdd oruchwyllo a sicrhau y defnyddir ac y darperir y GGI yn effeithiol. Mae'r gronfa wedi'i dylunio i hyrwyddo partneriaeth a gweithio ar y cyd, a rhaid i benderfyniadau a wneir o ran sut y caiff ei defnyddio adlewyrchu hyn.

Mewn perthynas â gwariant cyfalaf, mae'n rhaid i ni sicrhau, wrth i ni ddarparu cyllid sy'n £100,000 neu fwy i sefydliad trydydd parti gyflawni unrhyw Bwrpas neu bob un ohonynt, a bod eiddo ynghlwm wrth y peth, yna byddwn yn gwneud trefniadau i ddiogelu'r cyllid ac atal eiddo rhag cael ei waredu heb eich caniatâd ysgrifenedig.

Cytunir ar y trefniadau hyn gan aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru o fewn chwe mis o ddyddiad y dyfarniad hwn.

Os yw'r cyllid a ddarperir rhwng £100,001 a £250,000, yna dylid diogelu'r trefniadau hyn yn erbyn yr eiddo am gyfnod o 5 mlynedd o daliad terfynol y cyllid.

Os yw'r cyllid a ddarperir yn £250,000 neu fwy, yna dylid diogelu'r trefniadau hyn yn erbyn yr eiddo am gyfnod o 10 mlynedd o ddyddiad taliad terfynol y cyllid. Pe bai'r sefydliad trydydd parti'n dymuno gwaredu'r eiddo tra bod yr arwystl cyfreithiol yn parhau i fod yn ei le, yna bydd angen cydymffurfio â'r darpariaethau yn Atodlen 5.

Mae cyllid refeniw a chyfalaf CGI ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru. **Nid oes capasiti i orwario gan nad oes hyblygrwydd diwedd blwyddyn, ac ni ellir cario cyllid drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf.**

Blynyddol	Pwy	Chwarter 1
Llunio a dyrannu Dyraniadau Ariannol CGI	Cyllid Sir y Fflint	Cyn gynted y caiff ei dderbyn gan LC
Cynllun Buddsoddi Refeniw – cyflwyno i'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol	CGI	Canol Ebrill
Cynllun Buddsoddi Refeniw Rhanbarthol - Cyfuno	Tîm Cydweithio Rhanbarthol	Canol i ddiwedd Ebrill
Cynllun Buddsoddi Refeniw Rhanbarthol – Dilysu Cyllid	Cyllid Sir y Fflint	Canol i ddiwedd Ebrill
Cynllun Buddsoddi Refeniw – papurau i'r Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol	Tîm Cydweithio Rhanbarthol	Canol i ddiwedd Ebrill
Cynllun Buddsoddi Refeniw – cefnogaeth y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol	Tîm Cydweithio Rhanbarthol	Diwedd Ebrill
Cynllun Buddsoddi Refeniw – wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Tîm Cydweithio Rhanbarthol	Ganol Mai
Cynllun Buddsoddi Refeniw – cyflwynir erbyn dyddiad cau LIC	Tîm Cydweithio Rhanbarthol	Diwedd Mai
Cyhoeddi Cynllun ar wefan Cydweithio Rhanbarthol (dolenni o wefannau partner)	Tîm Cydweithio Rhanbarthol	1 Mehefin

Bob mis	Pwy	Diwrnod o'r mis
Data Cyllid PBC i Arweinwyr Cyllid ALI (Pob ffrwd, yn cynnwys Cyfalaf), yn cynnwys cymeradwyo gwasanaeth	Cyllid PBC	Diwrnod gwaith 6
ALI yn cyflwyno hawliau i Gyllid Sir y Fflint yn cynnwys cymeradwyaeth Gwasanaeth ALI	Arweinwyr Cyllid CGI	Diwrnod gwaith 10
Hawliad Cyllid wedi'i gydgrynhoi yn cael ei anfon at BIPBC am daliad	Cyllid Sir y Fflint	Diwrnod gwaith 11
Hawliau ALI yn cael eu talu gan PBC	Cyllid PBC	Diwrnod gwaith 15
Cyflwyno Adroddiad Canlyniadau Misol i LIC	Cyllid Sir y Fflint	Diwrnod gwaith 20

Bob chwarter	Pwy
Data Cyllid PBC i Arweinwyr Cyllid ALI (Pob ffrwd, yn cynnwys Cyfalaf), yn cynnwys cymeradwyo gwasanaeth	Cyllid PBC
ALI yn cyflwyno hawliau i Gyllid Sir y Fflint yn cynnwys cymeradwyaeth Gwasanaeth ALI	Arweinwyr Cyllid CGI
Hawliad Cyllid wedi'i gydgrynhoi yn cael ei anfon at BIPBC am daliad	Cyllid Sir y Fflint
Hawliau ALI yn cael eu talu gan PBC	Cyllid PBC
Cyfuno adroddiadau Atodiad C: (Ch1 Statws Prosiect a Chyllid Ch2 Statws Prosiect, Canlyniadau a Chyllid Ch3 Statws Prosiect a Chyllid Ch4 Statws Prosiect, Canlyniadau a Chyllid) a chyflwyno i'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol	Arweinwyr Gweithredol CGI
Cyfuno adroddiad Atodiad C Rhanbarthol – Statws Prosiect a Chanlyniadau	Tîm Cydweithio Rhanbarthol
Dilysu adroddiad Atodiad C Rhanbarthol Cyllid	Cyllid Sir y Fflint
Anfon adroddiad at Gadeirydd BPRh/Prif Weithredwr BIPBC a gwrthlofnodi gan Gyfarwyddwr Cyllid BIPBC	Tîm Cydweithio Rhanbarthol
Adroddiad i'w gynnwys mewn papurau i'r Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol	Tîm Cydweithio Rhanbarthol

Bob chwarter	Pwy
Adroddiad yn cael cefnogaeth yn y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol	Tîm Cydweithio Rhanbarthol
Adroddiad yn cael ei gyflwyno erbyn dyddiad cau LIC	Tîm Cydweithio Rhanbarthol
Adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Tîm Cydweithio Rhanbarthol

Y Gronfa Gofal Integredig (GGI): Proses i wneud penderfyniadau yn ardal y Gorllewin, Rhanbarth Gogledd Cymru



Syniadau ar gyfer defnyddio cyllid CGI a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol, arweinwyr Gwasanaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a sefydliadau'r Trydydd Sector (gan ddefnyddio profforma syniadau)

Grŵp Cydlynu CGI y Gorllewin

Cyfarfod bob mis / bob deufis / i drafod / cydlynu

- Syniadau PID
- Rheoli llithriant cyllid
- Monitro prosiect a chwblhau pob ffurflen ddata i Lywodraeth Cymru



Darpariaeth integredig Byrddau Gwasanaethau Integredig (BGI)

Iechyd Meddwl
Tîmau Integredig
Lleol y Gorllewin

Grŵp Darparu
Integredig -
Oedolion

Grŵp Darparu
Integredig - Plant

Grŵp Darparu
Integredig - Lles

Grwpiau Tasg a
Gorffen BGI

Y Bwrdd Gwasanaeth Integredig (BGI) yw'r grŵp gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer gwariant arfaethedig yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Rôl yr BGI yw cytuno ar gynlluniau cyllido i'r GGI ac arian trawsffurfio, a'u cyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

BGI Ardal y Gorllewin

- Awdurdodau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn
- Tîm Rheoli Ardal y Gorllewin BIPBC
- Mantell Gwynedd
- Medrwn Môn
- Tai

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

Cadarnhad terfynol o gynigion PID's / RIP CGI

Mae syniadau Dogfen(nau) Cychwyn Prosiect (PID a PIDs) wedi'u cwblhau gan Grŵp Cydlynu CGI yn cael eu trafod a'u cymeradwyo mewn egwyddor gan Grwpiau Darparu Integredig BGI i'w cyflwyno'n derfynol i'r BGI

Y Gronfa Gofal Integredig (GGI): Proses i wneud penderfyniadau yn yr ardal Ganolog, Rhanbarth Gogledd Cymru



Mae syniadau ar gyfer defnyddio cyllid yn gorbwyso'r cyllid sydd ar gael



Disgwylir i bob partner fod â dulliau yn eu sefydliadau eu hunain i hysbysu ac ymgynghori â'r rhai y maent yn eu cynrychioli ar y grŵp. Mae angen cydgrynhoi unrhyw benderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud ynglŷn â blaenoriaethau cystadleuol o fewn un sefydliad, fel bod barn glir gan bob un erbyn i'r Grŵp Partneriaeth gyfarfod

Grŵp Plant a Phobl Ifanc

Grŵp Pobl Hŷn a Dementia

Grŵp Cyfalaf

Grŵp Anableddau Dysgu a Phlant ag Anghenion Cymhleth

Daw'r holl gynrychiolwyr â syniadau ac awgrymiadau gan eu sefydliad neu sector i'w trafod / cytuno

Bwrdd Gwasanaethau Integredig yr Ardal Ganolog

- Awdurdodau Lleol Conwy a Sir Ddinbych
- Tîm Rheoli Ardal, BIPBC
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Cartrefi Conwy
- Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu BIPBC

Mae'r grŵp hwn yn darparu arweinyddiaeth strategol i ddatblygiad y model ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Lles yn yr Ardal. Datblygu a gorchwyllo darpariaeth gwasanaethau integredig yn siroedd Conwy a Sir Ddinbych yn unol ag amcanion cytunedig y Bwrdd Iechyd ac Asiantaethau Partner, gan gynnwys YGAC, yr Awdurdodau Lleol; a chyflawni blaenoriaethau Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Rhan 9 yn lleol.

Cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â defnyddio CGI ym mhob cam:

- Mae'r defnydd posibl o gyllid yn llawer mwy na'r dyraniad cyllid sydd ar gael - felly cymerir pob penderfyniad cyllido wrth ystyried ffrydiau cyllido eraill sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau craidd a lle mae bylchau yn parhau
- Gwneir pob penderfyniad cyllido gan ystyried lle gallant ychwanegu'r gwerth mwyaf yn erbyn y prif amcanion strategol ar gyfer partneriaid a'r cyhoedd
- Mae'r amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau yn aml yn dynn
- Mae cyllid yn y tymor byr ac nid yw bob amser yn addas am y rheswm hwnnw ar gyfer rhai mathau o fuddsoddiad

Y Gronfa Gofal Integredig (GGI): Proses i wneud penderfyniadau yn ardal y Dwyrain, Rhanbarth Gogledd Cymru



Mae syniadau ar gyfer defnyddio cyllid yn gorbwyso'r cyllid sydd ar gael



Disgwylir i bob partner fod â dulliau yn eu sefydliadau eu hunain i hysbysu ac ymgynghori â'r rhai y maent yn eu cynrychioli ar y grŵp. Mae angen cydgrynhoi unrhyw benderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud ynglŷn â blaenoriaethau cystadleuol o fewn un sefydliad, fel bod barn glir gan bob un erbyn i'r Grŵp Partneriaeth gyfarfod

Daw'r holl gynrychiolwyr â syniadau ac awgrymiadau gan eu sefydliad neu sector i'w trafod / cytuno

Grŵp Partneriaeth CGI Ardal y Dwyrain

- Awdurdodau Lleol Sir y Fflint a Wrecsam
- Tîm Rheoli Ardal, BIPBC
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint
- Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam
- Cynrychiolwyr Grŵp Strategol Tai o bob sir

Rôl y grŵp hwn yw cytuno ar gynllun cyllido i'w gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w gymeradwyo, monitro perfformiad pob cynllun, monitro gwariant a chymeradwyo newidiadau yn y dyraniadau cyllideb rhwng cynlluniau.

Y grŵp hwn yw'r grŵp gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer gwariant arfaethedig yn y ddwy sir.

Cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â defnyddio CGI ym mhob cam:

- Mae'r defnydd posibl o gyllid yn llawer mwy na'r dyraniad cyllid sydd ar gael - felly cymerir pob penderfyniad cyllido wrth ystyried ffrydiau cyllido eraill sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau craidd a lle mae bylchau yn parhau
- Gwneir pob penderfyniad cyllido gan ystyried lle gallant ychwanegu'r gwerth mwyaf yn erbyn y prif amcanion strategol ar gyfer partneriaid a'r cyhoedd
- Mae'r amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau yn aml yn dynn
- Mae cyllid yn y tymor byr ac nid yw bob amser yn addas am y rheswm hwnnw ar gyfer rhai mathau o fuddsoddiad